



**Rhif: WG46785**

Llywodraeth Cymru  
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Diwygio'r Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni  
addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru

Addysgu athrawon yfory

Ebril 2023

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.  
This document is also available in English.

## Trosolwg

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r ymateb i ymgynghoriad a oedd yn ceisio barn ar fersiwn ddiwygiedig o'r *Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru* (y 'Meini prawf'). O dan ddeddfwriaeth i ddyfarnu Statws Athro Cymwysedig (SAC), rhaid i bob rhaglen addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru gael ei hachredu yn erbyn y Meini prawf. Mae Statws Athro Cymwysedig yn ofyniad statudol ar gyfer gweithio fel athro mewn lleoliadau a gynhelir yng Nghymru.

## Camau i'w cymryd

Er gwybodaeth yn unig y mae'r ddogfen hon.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru (2018)

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Cangen Addysg Gychwynnol Athrawon

Is-adran Addysgeg, Arweinyddiaeth a Dysgu Proffesiynol

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

e-bost: [ITEducationAddysgGA@gov.wales](mailto:ITEducationAddysgGA@gov.wales)



@LIC\_Addysg



Facebook/AddysgCymru

## Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennaeth ymgynghori ar ffurf electronig yn unig ac maent ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Dolen i'r ddogfennaeth ymgynghori: [hyperlink](#)

## **Cynnwys**

<b>Addysg gychwynnol athrawon â Statws Athro Cymwysedig yng Nghymru</b>	<b>4</b>
<b>Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru</b>	<b>4</b>
<b>Pam ein bod yn diwygio'r Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru?</b>	<b>5</b>
<b>Y broses ymgynghori</b>	<b>5</b>
<b>Pwy a ymatebodd i'r ymgynghoriad</b>	<b>6</b>
<b>Crynodeb o'r ymatebion</b>	<b>6</b>
<b>Y Camau Nesaf</b>	<b>23</b>
<b>Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr</b>	<b>23</b>

## **Addysg gychwynnol athrawon â Statws Athro Cymwysedig yng Nghymru**

Caiff y proffesiwn athrawon ysgol a reoleiddir a dyfarniadau Statws Athro Cymwysedig (SAC) yng Nghymru eu pennu'n genedlaethol ac mae hynny'n cynnwys y gofynion deddfwriaethol sy'n berthnasol i addysg gychwynnol athrawon (AGA) sy'n dyfarnu SAC. Mae SAC yn ofyniad statudol ar gyfer gweithio fel athro ysgol mewn lleoliadau a gynhelir yng Nghymru.

Er mwyn cael SAC drwy gymhwyster AGA, rhaid i athrawon dan hyfforddiant gyrraedd cyfres o safonau penodedig, a dangos eu cyrhaeddiad dros gyfnod estynedig. Mae safonau SAC yn amlinellu'r hyn y mae'n rhaid i fyfyrwyr AGA ei wybod a'i ddeall a'r hyn y dylent allu ei wneud erbyn diwedd eu rhaglen AGA fel y gellir dyfarnu SAC iddynt. O dan y ddeddfwriaeth hefyd, rhaid i gymwysterau AGA gael eu hachredu yn erbyn meini prawf penodedig er mwyn dyfarnu SAC.

## **Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru**

Mae'r *Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru* (y "Meini prawf") yn rhan o'r gofynion deddfwriaethol sy'n ymwneud â chymwysterau athrawon ysgol ac maent yn darparu fframwaith lefel uchel er mwyn sicrhau ansawdd cymwysterau AGA. Mae hyn yn galluogi athrawon dan hyfforddiant, a'r sector addysg yn ehangach, i fod yn hyderus bod cymwysterau AGA o ansawdd uchel, yn drylwyr ac yn briodol o safbwynt proffesiynol, a'u bod yn paratoi athrawon newydd i ymuno â'r proffesiwn a pharhau â'u hymrwymiad i ddysgu proffesiynol drwy gydol eu gyrfa.

Gwnaeth adroddiad yr Athro Furlong 'Addysgu Athrawon Yfory' (2015) argymhellion i ddiwygio'r system AGA yng Nghymru â chysylltiadau clir i adroddiad yr Athro Donaldson 'Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru' (2015), gan nodi'r weledigaeth ar gyfer datblygu'r athrawon a fyddai eu hangen yng Nghymru i gyflawni dyheadau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg yng Nghymru. Un o'r argymhellion a wnaed oedd y dylid llunio Meini prawf newydd i ddisodli'r rhai a oedd ar waith ar y pryd (*Gofynion ar gyfer cyrsiau hyfforddiant addysg gychwynnol athrawon mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru, 2013).

Eglurodd y *Meini prawf ar gyfer achredu addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru*, a gyhoeddwyd gyntaf yn 2017, y gofynion newydd ar gyfer AGA yng Nghymru:

- Rôl ganolog i ysgolion
- Rôl gliriach i brifysgolion
- Cydberchnogaeth o'r rhaglen AGA
- Cyfleoedd strwythuredig i gysylltu addysg ysgolion a phrifysgolion
- Canolrwydd gwaith ymchwil a mathau eraill o dystiolaeth systematig

# Pam ein bod yn diwygio'r Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru?

Mae pob rhaglen AGA â SAC yng Nghymru o flwyddyn academaidd 2019/20 wedi cael ei hachredu yn erbyn dogfen gyfredol y Meini prawf am gyfnod cyfyngedig o amser. Daw'r cyfnod achredu cyntaf i ben yn fuan a bydd angen i Bartneriaethau AGA wneud cais i Gyngor y Gweithlu Addysg (CGA) yn 2023 i ailachredu eu darpariaeth er mwyn parhau i gyflwyno AGA yng Nghymru. Bydd rhaglenni yn y dyfodol sydd wedi cael eu hachredu'n llwyddiannus yn weithredol am hyd at bum mlynedd o flwyddyn academaidd 2024/25.

Mae llawer wedi newid yn y system addysg yng Nghymru ers i ddogfen gyfredol y Meini prawf gael ei chyhoeddi; deddfwriaeth newydd, ymrwymïadau Gweinidogol, a chanfyddiadau ymchwil i'r system addysg ac AGA yng Nghymru. Cydnabu Llywodraeth Cymru'r angen i fyfyrïo ar y newidiadau a'r dystiolaeth sydd ar gael, ynghyd â chefnogi blaenoriaethau'r system addysg yn dilyn effaith pandemig COVID-19.

Diwygiwyd y Meini prawf ac ymgynghorwyd ar y drafft er mwyn sicrhau bod AGA yng Nghymru yn parhau i gefnogi'r system addysg drwy gynnig darpariaeth o ansawdd uchel i athrawon dan hyfforddiant. Nod y Meini prawf diwygiedig yw sicrhau bod rhaglenni AGA newydd a rhai a ailachredwyd yng Nghymru yn:

- adlewyrchu'r diwygiadau addysgol sefydledig yng Nghymru, gan ymgorffori newidiadau deddfwriaethol a chyfeiriadau at y canllawiau diweddaraf ar faterion cysylltiedig
- adlewyrchu'r gwersi a ddysgwyd o'r broses achredu flaenorol a darpariaeth achrededig, i sicrhau bod y weledigaeth a'r broses o roi rhaglenni AGA ar waith yn glir i bawb sy'n cyflwyno ac yn cefnogi AGA
- codi ein huchelgeisiau a'n disgwyliadau ar gyfer rhaglenni AGA a Phartneriaethau i gefnogi ein huchelgais ar gyfer AGA o'r radd flaenaf yng Nghymru.

## Y broses ymgynghori

Datblygwyd y Meini prawf drafft diwygiedig, yn amodol ar yr ymgynghoriad, ar y cyd â'r sector AGA drwy grŵp llywio. Roedd y grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o Bartneriaethau AGA - ysgolion a Sefydliadau Addysg Uwch (SAU), Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA), Estyn, a'r Athro Furlong. Rhoddodd Arbenigwyr rhyngwladol ar AGA safbwynt arbenigol allanol hefyd i sicrhau disgwrs fanylach dros gyfnod y prosiect.

Dros dymor yr haf, cysylltwyd â rhanddeiliaid yn uniongyrchol a'u gwahodd i roi tystiolaeth ynghylch AGA yng Nghymru ynghyd â defnyddio eu rhwydweithiau eu hunain o randdeiliaid i wahodd pobl eraill i gymryd rhan. Defnyddiwyd yr ymatebion a gafwyd gan yr holl randdeiliaid i lywio trafodaethau'r grŵp llywio a'r Meini prawf drafft diwygiedig.

Gofynnwyd am safbwyntiau ar y Meini prawf drafft fel rhan o ymgynghoriad saith wythnos a ddechreuodd ar 1 Rhagfyr 2022 ac a ddaeth i ben ar 19 Ionawr 2023. Y bwriad i ddechrau oedd cau'r ymgynghoriad ar ôl cyfnod o bedair wythnos ond, ar ôl

cael adborth gan randdeiliaid, estynwyd y cyfnod amser gyda chytundeb y Partneriaethau AGA a CGA (mae'r amserlen i lunio'r Meini prawf terfynol yn effeithio ar yr amser a gymerir i gwblhau'r broses achredu, sy'n effeithio'n uniongyrchol ar Bartneriaethau AGA a CGA).

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys cwestiynau am ddogfen ddrafft y Meini prawf, ynghyd â chwestiynau safonol am y Gymraeg. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar dudalennau ymgynghori gwefan Llywodraeth Cymru. Roedd modd i ymatebwyr gyflwyno eu safbwyntiau a'u sylwadau ar bapur, drwy e-bost neu ar-lein, ac yn Gymraeg neu'n Saesneg. Cafodd y ddolen i'r ymgynghoriad ei hanfon at amrywiaeth o randdeiliaid drwy e-bost, gan gynnwys y rhai y gwnaethom gysylltu â nhw yn ystod tymor yr haf 2022, a chafodd yr ymgynghoriad ei hysbysebu drwy fwletin 'Dysg' Llywodraeth Cymru. Ymgynghoriad i Gymru yn unig oedd hwn.

## **Pwy a ymatebodd i'r ymgynghoriad**

Mae pob ymateb wedi cael ei ystyried a'i ddadansoddi. Roedd yr ymatebwyr yn cynrychioli unigolion ac amrywiaeth o grwpiau â buddiant gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chyflwyno AGA yng Nghymru. Ceir rhestr o'r ymatebwyr, heb gynnwys y rhai a oedd am fod yn ddienw, yn Atodiad A.

## **Crynodeb o'r ymatebion**

Cafwyd 54 o ymatebion i gyd, 24 drwy'r ffurflen ar-lein, 25 drwy e-bost a 5 llythyr. Cafodd 45 o'r ymatebion eu cyflwyno yn Saesneg, 8 yn Gymraeg ac 1 yn hollol ddwyieithog.

Yn y pum llythyr, cafwyd adborth ar y Meini prawf drafft ond ni ddefnyddiwyd y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a ddarparwyd ac ni atebwyd y cwestiynau'n uniongyrchol ychwaith. Er bod manylion yr ymatebion hyn wedi'u cynnwys yn y crynodeb uchod a'r dadansoddiad isod ar gyfer cwestiwn un lle y bo'n berthnasol, maent wedi'u categorio o dan y pennawd 'Dim ymateb' o gwestiwn dau hyd at gwestiwn naw. Mae eu hymatebion wedi'u cynnwys o dan y crynodeb ar gyfer cwestiwn deg.

## **Cwestiwn un: Yr ymatebydd**

Dywedodd rhai ymatebwyr eu bod yn gweithio, ac nad ydynt yn gweithio, fel rhan o'r broses o gyflwyno AGA neu'n cefnogi'r broses honno. Fel y cyfryw, mae'r data isod yn anghyson o'u dadansoddi ymhellach.

Yn seiliedig ar yr wybodaeth a ddarparwyd, cafwyd dros dri chwarter yr ymatebion gan sefydliadau ac ychydig dros hanner yr holl ymatebion gan sefydliadau neu unigolion sy'n gweithio fel rhan o'r broses o gyflwyno AGA yng Nghymru, neu sy'n cefnogi'r broses honno'n uniongyrchol.

Ar gyfer rhannau i i iv, mae'r ymatebwyr hynny a ddarparodd lythyrau wedi cael eu cynnwys o dan y pennawd dim ymateb. Maent wedi cael eu cynnwys o dan ran v o gwestiwn un oherwydd sefydliadau a ddarparodd y pum llythyr.

**Rhan i: A ydych chi'n gweithio fel rhan o'r broses o gyflwyno Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) neu'n cefnogi'r broses honno?**

Ydw 52%  
Nac ydw 39%  
Dim ymateb 9%

Cawsom 49 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

**Rhan ii: Os gwnaethoch chi ateb 'Ydw', ym mha fath o leoliad/sefydliad ydych chi'n gweithio?**

Partneriaeth AGA – SAU 25%  
Partneriaeth AGA – ysgol gynradd 14%  
Partneriaeth AGA – ysgol uwchradd 7%  
Partneriaeth AGA – ysgol pob oed 0%  
Partneriaeth AGA – ysgol arbennig 11%  
Awdurdod lleol 7%  
Consortiwm rhanbarthol 11%  
Corff rheoleiddio (gan gynnwys arolygiaethau) 7%  
Llywodraeth 4%  
Arall 14%

Cawsom 28 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

**Rhan iii: Beth yw eich prif rôl chi?**

Swyddog monitro achrediadau 4%  
Swyddog sefydlu / swyddog cefnogi ANGau 14%  
Arolygydd 4%  
Arweinydd partneriaeth AGA – SAU 18%  
Arweinydd partneriaeth AGA – ysgol bartner arweiniol 7%  
Arweinydd partneriaeth AGA – ysgol bartner 0%  
Arall 36%  
Addysg athrawon/mentor athrawon dan hyfforddiant – mewn SAU 4%  
Addysgwr athrawon/mentor athrawon dan hyfforddiant – mewn ysgol 14%

Cawsom 28 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

**Rhan iv: Os nad ydych chi'n gweithio fel rhan o'r broses o ddarparu Addysg Gychwynnol Athrawon nac yn ei chefnogi, ym mha rinwedd yr hoffech chi roi adborth?**

Oedolyn (nid rhiant na gofalwr) 0%  
Plentyn neu berson ifanc (o dan 18 oed) 0%  
Llywodraeth 0%  
Pennaeth (nad yw'n ymwneud â phartneriaeth AGA yng Nghymru ar hyn o bryd) 10%  
Athro newydd gymhwyso 0%  
Arall 40%  
Rhiant/gofalwr 0%  
Cymdeithasau proffesiynol gan gynnwys undebau'r gweithlu addysg 35%  
Athro ysgol (nad yw'n gweithio fel addysgwr athrawon ar hyn o bryd) 5%  
Athro dan hyfforddiant 0%

Myfyriwr/academydd	5%
Y trydydd sector	5%
Darparwr hyfforddiant	0%

Cawsom 20 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

**Rhan v: A ydych chi'n darparu adborth ar ran sefydliad neu grŵp?**

Ydw	80%
Nac ydw	19%
Dim ymateb	2%

Cawsom 53 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

**Cwestiwn dau: Ymgysylltu â'r cynigion**


**A ydych chi wedi darllen y ddogfen drafft 'Ymgynghoriad ar y meini prawf ar gyfer achredu addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru'?**

Ydw	91%
Nac ydw	0%
Dim ymateb	9%

Cawsom 49 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

**Cwestiwn tri: Gweledigaeth ar gyfer addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru**

**A ydych chi'n cytuno bod y diwygiadau i 'Adran A: Gweledigaeth ar gyfer addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru' yn y ddogfen yn egluro'r Weledigaeth ar gyfer AGA yng Nghymru a'r ffordd o feddwl ddeallusol sy'n ofynnol i gynllunio a chyflwyno rhaglenni AGA yn well?**



Cytuno 63%



Anghytuno	6%	
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	13%	
Dim ymateb	19%	

Cawsom 44 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

### **Dadansoddiad Cryno**

Roedd 63% (34 o ymatebion) yn cytuno ag 'Adran A: Gweledigaeth ar gyfer addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru' yn y ddogfen ddrafft. Dyma'r lefel uchaf o gytundeb a welwyd o blith holl gwestiynau'r ymgynghoriad. Cafwyd amrywiaeth o geisiadau am ddiwygiadau eraill yn yr ymatebion.

Cafwyd sylwadau cadarnhaol ar y cyfan ynghylch y diwygiadau, gydag ymatebwyr yn cyfeirio at eglurder y cynnwys, ei resymeg, a'r goblygiadau cadarnhaol i bartneriaethau AGA.

*'Rydym yn croesawu'r tri dimensiwn a geir yn Adran A. Maen nhw'n gwneud yr weledigaeth ar gyfer AGA yng Nghymru yn llawer cliriach ac yn crynhoi'r ffordd o feddwl sydd ei hangen i gynllunio a chyflwyno AGA. Fel y noda'r ddogfen, mae'n bwysig bod AGA yn cael ei hystyried fel dechrau taith ddysgu athrawon cymwysedig yn hytrach na'r cam pwysicaf un yn eu datblygiad. Mae'n bwysig rhannu'r daith ddysgu hon yn ddysgu deallusol, ymarferol, integredig a phersonol ac mae hynny, fel sy'n briodol, yn adlewyrchu canfyddiadau gwaith ymchwil rhyngwladol.'*

Grŵp Cynghori Llywodraeth Cymru ar Addysg Heblaw yn yr Ysgol mewn ymateb i gwestiwn tri.

*'Mae'r diwygiadau'n egluro'r cysyniadau deallusol sydd yn sail i'r weledigaeth ar gyfer AGA yng Nghymru. Mae yma gamau pendant sydd wedi eu esbonio'n eglur.'*

*'The reforms clarify the intellectual concepts behind the vision for ITEs in Wales. There are concrete steps that have been clearly explained.'*

Ymatebydd dienw mewn ymateb i gwestiwn tri.

O'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn, roedd tri yn anghytuno, gan gyfeirio at dri maes penodol nad oeddent wedi'u cynnwys yn yr 'weledigaeth'. Y meysydd hyn oedd ystyriaethau'n ymwneud â'r Gymraeg, cyfeiriadau at yr argyfwng hinsawdd, ac ystyriaethau'n ymwneud â dysgu yn yr awyr agored fel addysgeg ganolog yn y Cwricwlwm i Gymru.

*'Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynghori'n gryf fod yn rhaid i raglenni AGA gynnwys dysgu drwy addysgu yn yr amgylchedd naturiol, am yr amgylchedd naturiol ac ar gyfer yr amgylchedd naturiol er mwyn gwreiddio a chefnogi dealltwriaeth o'r modd y mae addysgeg dysgu yn yr awyr agored yn helpu i wireddu'r Cwricwlwm i Gymru. Ar yr un pryd, dylid helpu ymarferwyr newydd i ddatblygu eu*

*sgiliau addysgu ynghylch pynciau'n ymwneud â'r hinsawdd ac argyfyngau natur.'*

Cyfoeth Naturiol Cymru mewn ymateb i gwestiwn tri.

Dywedodd saith ymatebydd nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno. O'r rhain, ni roddodd dau ohonynt fwy o wybodaeth. Cafwyd ymatebion yn union yr un fath gan ddau o'r ymatebwyr. O'r rhai a ddarparodd fwy o wybodaeth ynghylch eu hymateb, roeddent wedi:


- cwestiynu a oedd ystyriaeth wedi cael ei rhoi i ddatblygu trefniadau sy'n cynnig mwy o hyblygrwydd
- dweud nad oedd yr weledigaeth yn ddigon uchelgeisiol na manwl yn eu barn nhw, a chafwyd rhestr o bethau i'w cynnwys yn y cwricwlwm AGA
- cwestiynu'r sail dystiolaeth ar gyfer AGA yng Nghymru a'r prosesau ar gyfer sicrhau bod y sail dystiolaeth a ddefnyddir mewn rhaglenni AGA yn gyfoes ac yn gadarn
- dweud nad oedd yr weledigaeth yn ymddangos fel pe bai'n cyd-fynd â gweledigaeth ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg yng Nghymru, gan ystyried y Cwricwlwm i Gymru yn benodol
- mynegi rhwystredigaeth nad oedd llawer o gydnabyddiaeth wedi cael ei rhoi i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol a addysgir y tu allan i leoliadau prif ffrwd a chwestiynwyd sut y gallai ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion gymryd rhan mewn AGA

*'Mae'n gadarnhaol nodi'r gydnabyddiaeth mai athrawon ac ysgolion sy'n gyfrifol am gyflwyno'r cwricwlwm newydd mewn ffyrdd sy'n briodol i'w dysgwyr nhw, ond mae'n rhwystredig wedyn mewn ysgol arbennig/uned cyfeirio disgyblion, gan mai ychydig o gydnabyddiaeth, os o gwbl, sy'n cael ei rhoi i'r gofynion penodol sy'n gysylltiedig â datblygu cwricwlwm a system asesu i ddysgwyr ag ADY, sy'n ychwanegol at ac yn fwy na'r gofynion mewn ysgol brif ffrwd.'*

Cymdeithas Penaethiaid Ysgolion Arbennig De Cymru mewn ymateb i gwestiwn tri.

## **Cwestiwn pedwar: Strwythurau, prosesau a mewnbynnau rhaglenni AGA**

**A ydych chi'n cytuno bod y diwygiadau i 'Adran B: strwythurau, prosesau, a mewnbynnau rhaglenni AGA' yn adlewyrchu'r diwygiadau addysgol yng Nghymru, yn gwneud y gofynion yn gliriach, ac yn datblygu'r gofynion ansawdd ar gyfer rhaglenni AGA yng Nghymru?**



Cytuno	52%	
Anghytuno	22%	
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	11%	
Dim ymateb	15%	

Cawsom 46 o ymatebion i'r cwestiwn hwn a darparodd 34 wybodaeth ychwanegol.

### Dadansoddiad cryno

Roedd dros hanner yr ymatebwyr yn cytuno ond dyma'r cwestiwn â'r lefel uchaf o anghytundeb a dyma'r cwestiwn hefyd a gafodd y nifer mwyaf o sylwadau ychwanegol o blith holl gwestiynau'r ymgynghoriad, ynghyd â'r nifer mwyaf o geisiadau am ddiwygiadau. Cafwyd awgrymiadau am ddiwygiadau gan ymatebwyr o bob rhan o'r sbectrwm cytundeb, er mwyn cryfhau disgwyliadau, rhoi mwy o eglurder, a sicrhau bod agweddau penodol yn cael sylw ac yn cael eu cefnogi mewn ffordd gyfannol yn yr adran hon a'r ddogfen ehangach. Roedd rhai agweddau ar yr ymatebion a gafwyd gan wahanol sefydliadau yn union yr un fath. Cafwyd yr ymatebion hyn gan sefydliadau sy'n cyflwyno AGA mewn partneriaeth neu sy'n rhannu cylchoedd gwaith penodol neu gyrff cynrychioliadol.

Cadarnhaodd y rhai a oedd yn cytuno â'r fersiwn ddrafft o Adran B ei bod yn fanwl a bod ystyriaeth glir wedi'i rhoi i bob agwedd ar gyflwyno AGA. Mae diffiniadau, rolau, cyfrifoldebau a disgwyliadau ar gyfer pob partner yn y system wedi'u nodi'n glir a'u cysylltu â strategaethau cenedlaethol cysylltiedig.

Roedd sawl ymatebydd wedi croesawu'r elfennau ychwanegol a oedd wedi'u cynnwys gan gyfeirio'n benodol at is-adran '4.1.1 Rôl AGA mewn proffesiwn sy'n seiliedig ar ymchwil', amser gwarchoddedig i fentoriaid, y ffaith bod ysgolion arbennig wedi'u cynnwys yn benodol a'r cyfeiriadau at flaenoriaethau penodol Llywodraeth

Cymru, canllawiau, a'r disgwyliadau uwch mewn rhai meysydd. Cafodd yr adrannau diwygiedig ar y Cwricwlwm, ADY, a llesiant eu croesawu'n fawr hefyd.

*'Mae'n dda iawn gweld y gall myfyrwyr ar raglenni prif ffrwd dreulio hyd at 20% o'u profiad ysgol mewn ysgol arbennig neu uned ADY. Mae hyn yn adlewyrchu diwygiadau addysg sy'n aeddfedu yng Nghymru a bydd yn boblogaidd iawn ymhlith yr holl randdeiliaid, o safbwynt ehangu darpariaeth, profiad a chyfleoedd i roi hwb i recriwtio. Mae'r newidiadau i eiriad a chynnwys rhaglenni a modiwlau yn gadarnhaol ac yn adlewyrchu iaith diwygio'r cwricwlwm a'r Cwricwlwm i Gymru. Unwaith eto, mae adran benodol ar ddiwallu anghenion dysgwyr ag ADY i'w chroesawu ac yn adlewyrchu'r blaenoriaethau ar gyfer addysg yng Nghymru.'*

Partneriaeth AGA Prifysgol De Cymru – SAU mewn ymateb i gwestiwn pedwar.

Roedd sawl un o'r 12 ymatebydd a oedd yn anghytuno wedi cyflwyno'r un ymatebion neu rai tebyg iawn. Tynnodd y mwyafrif ohonynt sylw at gyfraniadau Gweinidog y Gymraeg ac Addysg yn ystod trafodaeth mewn cyfarfod llawn ar ddysgu yn yr awyr agored fel rhan o'r Cwricwlwm i Gymru a gwnaethant awgrymu diwygiadau i Adran B o'r ddogfen (a'r ddogfen gyfan yn eu hymatebion eraill) er mwyn cryfhau a chefnogi'r agwedd hon ar y Cwricwlwm ac addysgeg.

Mynegodd rhai o'r ymatebwyr eraill a oedd yn anghytuno deimladau cryf ynghylch y gofyniad y gallai myfyriwr gwblhau 20% o'i ymarfer clinigol mewn ysgol arbennig. Dywedodd rhai y dylid cynyddu hyn i 30%. Dadleuodd eraill y byddai hyn yn tynnu ysgolion arbennig allan o AGA yn llwyr yng Nghymru gan gyfeirio at y farchnad gyflogaeth heriol ar gyfer recriwtio athrawon i ysgolion arbennig.

*Mae mwy o ofynion ynghylch gwybodaeth pwnc ac addysgegol athrawon dan hyfforddiant mewn ysgol arbennig/uned cyfeirio disgyblion o gymharu â chyd-destun prif ffrwd gan fod y cymorth sydd ei angen ar bob dysgwr yn benodol i'r dysgwr hwnnw; mae hyn yn atgyfnerthu'r ffaith bod dim ond galluogi athrawon dan hyfforddiant i dreulio 20% o'u lleoliadau mewn ysgolion arbennig yn llawer rhy isel. Mae gwybodaeth pwnc ac addysgegol yn fater cymhleth wrth weithio gyda phlant ag ADY. Mae'n annheg ac yn ddiffygiol eich bod yn gallu cwblhau AGA mewn ysgol brif ffrwd 100% o'r amser a'ch bod, ar ddiwedd hynny, yn cael eich ystyried yn addas i addysgu mewn ysgol arbennig/uned cyfeirio disgyblion fel ANG ond credir ei bod yn ormod o risg i rywun hyfforddi am fwy nag 20% o'r amser mewn lleoliad arbenigol ac yna fod yn athro prif ffrwd.*

Cymdeithas Penaethiaid Ysgolion Arbennig De Cymru mewn ymateb i gwestiwn pedwar.

Roedd llawer o ymatebion o bob rhan o'r sbectrwm ymateb wedi tynnu sylw at y ffaith bod unedau cyfeirio disgyblion wedi'u hepgor o'r ddogfen ac wedi cwestiynu hynny. Dylid nodi bod sawl ymatebydd wedi cyfeirio at unedau cyfeirio disgyblion yn eu hymateb i lawer o gwestiynau'r ymgynghoriad.

Mae'r ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n ymwneud â chymwysterau athrawon ysgol a dyfarnu SAC yn nodi'n benodol na chaiff unedau cyfeirio disgyblion eu defnyddio fel

rhan o brofiad ysgol athrawon dan hyfforddiant. Fel y cyfryw, ni ellir cynnwys unedau cyfeirio disgyblion yn y ddogfen Meini prawf fel lleoliadau all gymryd rhan mewn AGA yng Nghymru.

Ymhlith y sylwadau eraill a ddaeth i law a oedd yn anghytuno â chwestiwn pedwar:

- nodwyd y dylid cyfeirio at Gynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg fel blaenoriaeth
- gofynnwyd am eglurder ynghylch proses arolygu Estyn a phroses monitro achrediadau CGA
- gofynnwyd am fwy o wybodaeth am iechyd meddwl a llesiant o fewn AGA a gofynnwyd am fesurau cydymffurfio amhenodol i sicrhau bod ysgolion yn defnyddio'r fframwaith i ymwreiddio dull ysgol gyfan o ran llesiant emosiynol a meddyliol.

Dywedodd chwech ymatebydd nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno. Cafwyd sylwadau ychwanegol cadarnhaol a negyddol ganddynt a gwnaethant awgrymiadau penodol a phellgyrhaeddol ar gyfer gwella. Yn gyffredinol, roedd y rhain yn adlewyrchu'r sylwadau a gafwyd gan yr ymatebwyr a nododd eu bod yn cytuno ac yn anghytuno â'r cwestiwn.

Ymhob un o'r ymatebion i gwestiwn pedwar, cafwyd sylwadau cyferbyniol a llawer o gwestiynau am is-adran '4.6 Y Gymraeg'. Er bod llawer o'r ymatebwyr yn cytuno â'r dyheadau a'r disgwyliadau uwch, roedd llawer ohonynt, yn enwedig y rhai sy'n gweithio fel rhan o'r broses o gyflwyno AGA (neu sefydlu) neu sy'n cefnogi'r broses honno, wedi mynegi anniddigrwydd mawr â realiti'r broses o gyflwyno AGA ac ymarferoldeb y gofynion newydd yn yr adran hon. Roedd y pryderon hyn yn ymwneud â chynnwys cymwysterau, staffio ac adnoddau. Gofynnodd llawer a oedd yn ymwneud ag AGA beth fyddai'n cael ei dynnu o gynnwys rhaglenni AGA i wneud lle ar gyfer y gofynion mewn perthynas â'r Gymraeg, a gwnaethant awgrymiadau ymarferol ynghylch sut y gellid diwygio'r gofyniad mewn ffordd realistig. Cwestiynodd ymatebwyr eraill y sail dystiolaeth dros y gofynion ychwanegol ac roeddent o'r farn mai diwygiad perfformiadol oedd hwn yn hytrach na mesur i helpu i ddatblygu sgiliau Cymraeg athrawon dan hyfforddiant. Fodd bynnag, yn ôl llawer o'r sefydliadau â budd penodol yn y Gymraeg a ymatebodd, nid oedd is-adran 4.6 yn mynd yn ddigon pell.

*'Er bod y rhesymeg drostynt yn gadarn, mae'r gofynion ychwanegol ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn galw am ddull llawer mwy dwys o ddatblygu sgiliau ar hyd continwwm iaith. Fodd bynnag, rhaid gosod hyn yng nghyd-destun y safonau gofynnol y mae'n rhaid i athro newydd eu cyrraedd a'r cwricwlwm trwm, heriol a ddefnyddir i gyflwyno AGA mewn cyfnod cymharol fyr.'*

Partneriaeth AGA – SAU ddiennw mewn ymateb i gwestiwn pedwar.

*'Nid ydym o'r farn bod y diwygiadau i Adran B (ac adran 4.6 yn benodol) yn adlewyrchu amcanion a thargedau'r Llywodraeth o safbwynt y Gymraeg ym myd addysg. Mae sicrhau gweithlu addysg cynyddol ddwyieithog yn gwbl greiddiol er mwyn cyflawni amcanion a thargedau Cymraeg 2050, ac mae gan AGA rôl gwbl allweddol yn y cyd destun hwn. Mae hyn yn wir o ran amcanion a thargedau'r*

*Llywodraeth ar gyfer twf addysg cyfrwng Cymraeg, a hefyd o ran y disgwylid y bydd defnydd llawer helaethach o'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Er bod y meini prawf diwygiedig yn gryfach 3na'r rhai presennol o safbwynt y Gymraeg, rydym o'r farn bod angen eu cryfhau ymhellach er mwyn adlewyrchu polisi Llywodraeth Cymru o safbwynt y Gymraeg ac addysg.'*

*'We do not consider that the amendments to Section B (and section 4.6 in particular) reflect the Government's objectives and targets on the Welsh language in education. Ensuring an increasingly bilingual education workforce is key to achieving the Cymraeg 2050 objectives and targets, and ITE has a crucial role in this context. This is true in terms of the Government's objectives and targets for the growth of Welsh-medium education, and in terms of the expectation that there will be much greater use of Welsh in English-medium schools. Although the revised criteria are stronger than the current criteria, we believe they need to be further strengthened if they are to reflect Welsh Government policy on education and the Welsh language.'*


Comisiynydd y Gymraeg mewn ymateb i gwestiwn pedwar.

*'Rydym yn croesawu'r gofyniad newid i Bartneriaethau 'gael dull gweithredu mwy strategol ar gyfer y Gymraeg o fewn ei staff a'i strwythurau ei hun', oherwydd mae'n amlwg bod gan AGA rôl hollbwysig i'w chwarae o ran sicrhau bod gan weithlu athrawon y dyfodol y sgiliau dwyieithog sydd eu hangen ar Gymru. Fodd bynnag, byddem yn rhybuddio na ddylai'r gofyniad newydd hwn ar Bartneriaethau arwain at y canlyniad anfwriadol o dynnu athrawon â sgiliau Cymraeg o'r sector ysgolion er mwyn llenwi swyddi ym maes addysg uwch.'*

Cymwysterau Cymru mewn ymateb i gwestiwn pedwar.

## **Cwestiwn pump: Canlyniadau rhaglenni AGA**

**A ydych chi'n cytuno bod y diwygiadau i 'Adran C: Canlyniadau rhaglenni' yn adlewyrchu'r diwygiadau addysgol yng Nghymru, yn gwneud y gofynion yn gliriach, ac yn datblygu'r gofynion ansawdd ar gyfer AGA yng Nghymru?**



Cytuno 54%  
 Anghytuno 6%  
 Ddim yn cytuno nac yn anghytuno 24%  
 Dim ymateb 17%

Cawsom 45 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

### Dadansoddiad cryno

Y cwestiwn hwn a gafodd y nifer mwyaf o ymatebion (13 ymateb) nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion a ddarparodd sylwadau ychwanegol wedi cyfeirio at is-adran 6.2 ac wedi croesawu'r ffaith bod mwy o gysondeb rhwng AGA a'r cam Sefydlu a threfniadau trosglwyddo cryfach rhyngddynt. O'r rheini a oedd yn anghytuno â'r cwestiwn, ailadroddodd yr ymatebwyr y safbwyntiau a fynegwyd ganddynt eisoes. Nododd ymatebwyr eraill fod y cwricwlwm AGA yn rhy llawn gan gyfeirio at yr effaith y gallai hyn ei chael ar gynnydd athrawon newydd drwy'r broses sefydlu.

*'Mae'r adran ar safonau ar gyfer sefydlu (6.2) yn ddefnyddiol am ei bod yn nodi'n glir sut y gall partneriaethau AGA a'r rhai sy'n gyfrifol am sefydlu gydweithio i gefnogi athrawon dan hyfforddiant wrth iddynt drosglwyddo o AGA i'r cam sefydlu a thu hwnt.'*

Cyngor Prifysgolion ac Ysgolion ar gyfer Addysg Athrawon Cymru (USCET Cymru) mewn ymateb i gwestiwn pump.

*Fodd bynnag, mae'n werth nodi, drwy gydol y ddogfen, fod llawer o bethau wedi cael eu hychwanegu at y cynnwys gofynnol yn sgil yr awydd i adlewyrchu diwygiadau addysg sy'n aeddfedu. Er mwyn helpu ANGau i fyfyrion ar eu datblygiad, mae angen i athrawon dan hyfforddiant raddio â meddylfryd y gallant feddwl yn ddwys. Mae angen amser a lle i wneud hyn a gall y cynnwys gorlwythog a*

*amlinellir yn adrannau B ac atodiad 3, weithiau, arwain at ddealltwriaeth arwynebol.*


Consortium Canolbarth y De mewn ymateb i gwestiwn pump.

## Cwestiwn chwech: Gwybodaeth ategol

A ydych chi'n cytuno y dylai'r diwygiadau i'r adrannau canlynol:

- Rhestr termau
- Cyfeiriadau
- Atodiad 2: Gofynion mynediad ar gyfer athrawon dan hyfforddiant yng Nghymru
- Atodiad 3: Safonau ar gyfer Statws Athro Cymwysedig – mwy o gyngor i bartneriaethau AGA wrth gynllunio rhaglenni

yn cefnogi'r newidiadau a wnaed i brif gorff y ddogfen?



Cytuno	61%
Anghytuno	4%
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	17%
Dim ymateb	19%

Cawsom 44 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

### Dadansoddiad cryno

Y cwestiwn hwn oedd â'r gyfradd dim ymateb gydradd uchaf (gyda chwestiwn saith) ar 19%, y lefel isaf o anghytundeb a welwyd yn yr ymgynghoriad a'r lefel uchaf ond un o gytundeb (cwestiwn un a gafodd y lefel uchaf o gytundeb gan yr ymatebwyr). Yn y sylwadau ychwanegol a wnaed, croesawyd y newidiadau a'r diwygiadau i'r gofynion mynediad. Gwnaed awgrymiadau a gofynnwyd cwestiynau ynghylch manylion technegol yn yr adrannau amrywiol a gofynnwyd hefyd am ddiffiniadau o iaith a geirfa benodol.




*'Rydym yn croesawu'r newidiadau i'r gofynion mynediad yn benodol. Bydd y rhain yn cefnogi ymdrechion recriwtio a chadw yn enwedig mewn ardaloedd ffiniol.'*

Partneriaeth AGA – Arall ddiennw mewn ymateb i gwestiwn chwech.

Yn gyffredinol, dywedodd y rhai a oedd yn anghytuno, neu nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno, fod y ffaith fod Atodiad 1 yn wag yn bryder.

## **Cwestiwn saith: Darpariaeth AGA arbenigol yn y cyfnod cynradd ar gyfer ADY**

**A ydych chi'n cytuno bod cynnwys 'Atodiad 4: Darpariaeth AGA arbenigol yn y cyfnod cynradd ar gyfer ADY' yn amlinellu'n glir nodau Llywodraeth Cymru i bennu a oes unrhyw newidiadau'n ofynnol yn fframwaith AGA Cymru er mwyn diwallu anghenion ein dysgwyr sydd â'r anghenion dysgu ychwanegol mwyaf cymhleth a chefnogi eu dyheadau?**



Cytuno	43%
Anghytuno	17%
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	22%
Dim ymateb	19%

Cawsom 44 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

### **Dadansoddiad cryno**

Y cwestiwn hwn oedd â'r gyfradd dim ymateb gydradd uchaf (gyda chwestiwn chwech) ar 19% a'r nifer isaf o ymatebwyr a oedd yn cytuno (23 o ymatebwyr). Roedd y rhai a oedd yn cytuno â'r cwestiwn yn croesawu'r atodiad ond cododd nifer o'r rhai sy'n chwarae rôl fwy uniongyrchol yn y broses o gyflwyno addysg mewn ysgolion a rhaglenni AGA nifer o gwestiynau am y manylion technegol ac ymarferoldeb. Nododd mwy o ymatebwyr a oedd yn chwarae rôl yn y broses o

gyflwyno a chefnogi AGA yng Nghymru eu bod yn anghytuno (9 ymatebydd), neu nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno (12 ymatebydd), â chwestiwn saith.

*'Mae'n bwysig bod pawb sy'n cael ei hyfforddi i addysgu yn meddu ar y sgiliau i ymdopi ag anghenion arbennig disgyblion. Fodd bynnag, efallai fod rhai hyfforddeion yn dymuno arbenigo mewn addysgu disgyblion ag anghenion cymhleth. Mae'n hollbwysig fod gan ddysgwyr sydd â'r anghenion dysgu ychwanegol mwyaf cymhleth athrawon o'r radd flaenaf a fydd yn gallu cynnig y gorau posibl iddynt. Mae'r cynlluniau peilot a'r gwaith ymchwil a gynigir i'w weld yn mynd i'r afael â'r dyhead hwnnw a bydd yn ddiddorol gweld beth fydd deilliannau'r gwaith ymchwil a'r cynlluniau peilot.'*

*'It is important that everyone trained to teach has the skills to cope with pupils' special needs. However, some trainees may wish to specialise in teaching pupils with complex needs. It is vital that learners with the most complex additional learning needs have world-class teachers who will be able to offer them the best possible. The pilots and research proposed seem to address that aspiration and it will be interesting to see what the outcomes of the research and pilots will be.'*

UCAC mewn ymateb i gwestiwn saith.

*Mae'n gadarnhaol bod cydnabyddiaeth bod angen gweithredu i ganfod a yw'r rhaglenni AGA ar gyfer ysgolion arbennig/unedau cyfeirio disgyblion yn addas, ond erys nifer o gyffredinoladau a chamsyniadau etifeddol.*

Cymdeithas Penaethiaid Ysgolion Arbennig De Cymru.

*Mae'r adran hon yn hynod o glir a defnyddiol. Fodd bynnag, mae pryderon ynghylch hyfywedd ariannol a chynaliadwyedd yn sgil gostyngiadau i ddyraniadau yn ogystal â phryderon am y ffordd y caiff Model Cynllunio a Chyflenwi Athrawon Cymru ei gymhwyso'n gyffredinol, ond nid yw'r rhain yn gysylltiedig â meini prawf.*

USCET mewn ymateb i gwestiwn saith.

Cafwyd sylwadau ychwanegol gan bob ymatebydd a oedd yn anghytuno heblaw un, a mynegwyd safbwyntiau cryf yn y sylwadau hynny. Roedd dau sylw a gafwyd yn union yr un fath. Roedd yr ymatebwyr:

- yn teimlo ei bod yn amhriodol cymhwyso Model Cynllunio a Chyflenwi Athrawon Cymru i'r sector ysgolion arbennig oherwydd y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â staffio ysgolion arbennig
- yn teimlo nad yw athrawon sydd wedi'u hyfforddi'n gyfan gwbl mewn lleoliadau prif ffrwd yn athrawon priodol ar gyfer ysgolion arbennig a chyfeiriwyd at y ffaith nad oes AGA arbenigol ar gyfer y sector ysgolion arbennig
- wedi cwestiynu pam mai peilot fyddai'r rhaglenni yn gyntaf a pham mai arbenigedd oedran cynradd yn unig fyddai'r peilot gan ddadlau bod y Cwricwlwm i Gymru yn seiliedig ar y cysyniad o 'gam nid oedran'

- wedi cwestiynu ymarferoldeb arbenigedd ADY o ystyried y cwricwlwm AGA gorlwythog
- wedi cwestiynu a oes angen arbenigedd ADY penodol.

*'I mi, nid yw'n gwneud synnwyr mai'r sector sydd angen yr arbenigedd mwyaf, y lefel uchaf o sgiliau ac sy'n wynebu'r gyfres fwyaf penodol a chymhleth o heriau addysgu yw'r sector sydd heb lwybr dynodedig.'*

Ni ddarparwyd enw - Pennaeth (nad yw'n ymwneud â Phartneriaeth AGA yng Nghymru ar hyn o bryd) mewn ymateb i gwestiwn saith.

*'Mae adran agoriadol atodiad 4 yn galonogol. Roedd hi'n dda gweld ar bapur fod Llywodraeth Cymru'n ymrwymedig i ystyried ein pryderon ac yn benderfynol o wneud argymhellion er mwyn mynd i'r afael â nhw. Roedd hi'n dda darllen hefyd fod cyfraniad parhaus y sectorau arbennig at y ddarpariaeth AGA yng Nghymru yn 'werthfawr' o ran paratoi darpar athrawon ar gyfer gyrfaedd yn y sector prif ffrwd a'r sector arbennig. Fodd bynnag, y tu hwnt i'r adran hon, ni chredaf fod y diwygiadau a gynigir yn ddigonol a'u bod, mewn gwirionedd, yn gwrthddweud yr wybodaeth a amlinellir uchod.'*

Partneriaeth AGA – Ysgol Arbennig ddiennw mewn ymateb i gwestiwn saith.

*'Mae angen meddwl mwy am gynnwys y rhaglen. Ymddengys mai'r goblygiad yw bod yn rhaid i unrhyw raglen ADY TAR gynnig y TAR Cynradd presennol i gyd yn ogystal â'r holl wybodaeth arbenigol ychwanegol am ADY. Hwyrach nad yw hyn yn realistig o ystyried bod y cwricwlwm presennol yn orlwythog yn barod.'*

Partneriaeth AGA – SAU ddiennw mewn ymateb i gwestiwn saith.

Ni chafwyd sylwadau ychwanegol gan y mwyafrif o'r rhai a nododd nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno ond o'r rheini a wnaeth sylwadau ychwanegol, gofynnwyd cwestiynau technegol manwl neu gwnaed ceisiadau i gynnwys cyfeiriadau priodol at y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

## **Cwestiwn wyth: Effaith ar y Gymraeg**

**Hoffem gael eich barn ar yr effaith y byddai'r Meini prawf diwygiedig yn ei chael ar y Gymraeg, yn enwedig ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu liniaru'r effeithiau negyddol?**

Cafwyd 35 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Ni chawsom unrhyw sylwadau a fyddai'n awgrymu y byddai'r cynigion a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori'n cael effaith negyddol ar y Gymraeg.

Roedd yr ymatebion i gwestiwn wyth yn gadarnhaol ar y cyfan ynghylch y newidiadau a wnaed i'r ddogfen yn nhermau'r ymrwymiad ehangach i'r Gymraeg ac roeddent yn tueddu i gynnwys pwyntiau tebyg i'r rhai a wnaed o dan gwestiwn

pedwar. Teimlai llawer ei bod yn amlwg bod y Gymraeg yn flaenoriaeth, bod y gofynion yn gliriach, ac y byddai'r effaith yn gadarnhaol.

Cafwyd ceisiadau penodol am ddiwygiadau mewn llawer o'r ymatebion. Nododd rhai o'r sylwadau hyn y rôl y mae AGA yn ei chwarae er mwyn galluogi polisiâu eraill Llywodraeth Cymru i gyflawni eu nodau, fel y rhai sy'n rhan o Gymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg a chynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg. Roedd sawl ymateb yn union yr un peth ac, yn gyffredinol, roeddent yn cynnwys yr un ceisiadau manwl am ddiwygiadau. Cafwyd ceisiadau gan rai ymatebwyr i addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog gael ei hystyried mewn ffordd fwy cyfannol yn y ddogfen a nodwyd y dylai'r disgwyliadau o dan is-adran 4.6 gael eu hymestyn ymhellach i gynyddu'r effaith gadarnhaol ar y Gymraeg. Mewn cyferbyniad gofynnodd rhai ymatebwyr am i'r meini prawf gael eu diwygio i gyd-fynd â'r agweddau ymarferol ar AGA ac i gefnogi athrawon dan hyfforddiant.

Cwestiynodd llond llaw o ymatebwyr bolisi Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Gymraeg yn ei gyfanrwydd.

*'Mae 4.6 yn nodi disgwyliadau pendant ac o'u gweithredu'n llwyr fe fydd yn sicrhau na fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.'*

*'4.6 sets out firm expectations and if implemented completely will ensure that Welsh is not treated less favourably than English.'*

Awdurdod lleol dienw mewn ymateb i gwestiwn wyth.

*'Mae'r Meini prawf bellach yn glir yn yr ystyr bod cyfrifoldeb ar bob Partneriaeth sy'n dymuno darparu AGA yng Nghymru i sicrhau bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn rhan greiddiol o bob rhaglen.'*

CGA mewn ymateb i gwestiwn wyth.

*'Rydym yn croesawu'r pwyslais ar y Gymraeg a'r amod o nifer o oriau. Mae hwn yn gam cadarnhaol i fynd i'r afael â '2050 Miliwn o Siaradwyr Cymraeg'. Mae'r gofyniad am 35 awr y flwyddyn yn ychwanegol at y ddarpariaeth bresennol ac mae'n llawer mwy na'r hyn a gynigir ar hyn o bryd. Nid oes unrhyw ofyniad arall yn cael ei hepgor er mwyn gwneud lle. Byddem yn dadlau, ar y cyd â'r ychwanegiadau eraill i'r meini prawf diwygiedig, mewn cwricwlwm sydd eisoes yn llwythog, y gallai'r ychwanegiadau gyda'i gilydd arwain at lwyth gwaith afrealistig i athrawon dan hyfforddiant.'*

Partneriaeth AGA – SAU ddienw mewn ymateb i gwestiwn wyth.

*'Fel cyfanwaith nid yw'r ddogfen yn adlewyrchu polisi a thargedau Llywodraeth Cymru ar addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn ddigonol, nac ychwaith rôl allweddol gweithlu addysg ddwyieithog er mwyn cyflawni hyn.'*

*'As a whole, the document does not adequately reflect Welsh Government policy and targets, nor does it adequately reflect the*

*fundamental importance of an increasingly bilingual education workforce in achieving this vision.'*

Comisiynydd y Gymraeg mewn ymateb i gwestiwn wyth.

*'Yn gyffredinol, mae'r meini prawf achredu diwygiedig yn cynnwys rhywfaint o gynnydd o ran y Gymraeg, ond yn sylfaenol, mae'n ymddangos fod y Gymraeg (neu ofynion penodol ychwanegol) wedi eu mewnosod mewn manau penodol, heb ystyried y ddogfen fel cyfanwaith. Byddai modd golygu'r ddogfen mewn dull mwy cydlynus er mwyn sicrhau bod disgwyliadau'r Llywodraeth o ran y Gymraeg yn treiddio trwy'r ddogfen gyfan.'*

*'The revised accreditation criteria generally include some progress in terms of Welsh, but fundamentally, it appears that the Welsh language (or additional specific requirements) have been inserted in specific places, without regard to the document as a whole. It would be possible to edit the document in a more coherent manner to ensure that the Government's expectations regarding the Welsh language permeate the whole document.'*

Coleg Cymraeg Cenedlaethol mewn ymateb i gwestiwn wyth.

## **Cwestiwn naw: Gwella'r Gymraeg**

**Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut y credwch y gallai'r Meini Prawf arfaethedig gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac atal unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Cafwyd 24 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

Roedd rhai o'r ymatebion yn union yr un peth ac ar draws y sbectrwm ymatebion, awgrymodd llawer o ymatebwyr ddiwygiadau i'r ddogfen gyfan er mwyn cefnogi'r gofynion o dan adran 4.6 yn well. Roedd llawer o'r awgrymiadau hyn yn ymwneud ag ehangu a gwella rôl ysgolion mewn Partneriaethau AGA, a staff ysgol a'u datblygiad proffesiynol, er mwyn cefnogi'r Gymraeg ymhellach a'i datblygiad a'i defnydd o fewn rhaglenni AGA.

Roedd y rhai a oedd yn teimlo nad oedd y gofynion yn gwneud digon i gefnogi'r Gymraeg wedi gwneud awgrymiadau a oedd, gan fwyaf, yn ymwneud â chynyddu lefelau monitro, atebolrwydd, a threfniadau cydymffurfio, a gwneud y trefniadau newydd hyn a'u canlyniadau yn fwy cyhoeddus nag y maent ar hyn o bryd. Dywedodd llawer o'r ymatebwyr hyn hefyd y dylai dyraniadau recriwtio fod yn orfodol ac y dylid diddymu statws achrededig os na chaiff y dyraniadau eu cyflawni.

*'Barn CYDAG yw nad yw'r trefniadau monitro ac atebolrwydd presennol yn ddigon cadarn i ddarparu sicrwydd bod y meini prawf yn ymwneud â'r Gymraeg yn cael eu gweithredu'n gyson ac yn effeithiol ar draws y partneriaethau. Yr ydym o'r farn felly bod angen*

*creu fframwaith gadarnach i sicrhau fod y meini prawf sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn cael eu gweithredu.'*

*'CYDAG's view is that the current monitoring and accountability arrangements are not robust enough to provide assurance that the criteria relating to the Welsh language are being implemented consistently and effectively across the partnerships. We therefore believe that a stronger framework needs to be created to ensure that the criteria relating to the Welsh language are implemented.'*

CYDAG mewn ymateb i gwestiwn naw.

*'Fel rhan o'r cynnig, mae digon o amser ac ymrwymiad i roi sylw i sgiliau Cymraeg athrawon dan hyfforddiant - y staff sy'n gweithio gyda nhw sydd angen mwy o hyfforddiant.'*

Ni ddarparwyd enw – arweinydd Partneriaeth AGA – ysgol bartner arweiniol mewn ymateb i gwestiwn naw.

## **Cwestiwn deg: Materion cysylltiedig**

**Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.**

Darparodd 24 o ymatebwyr wybodaeth ychwanegol am faterion cysylltiedig na roddwyd sylw penodol iddynt yn y ddogfen. Mae hyn yn cynnwys pump ymatebydd a ddarparodd lythyr gyda'u hadborth.

Roedd llawer o'r sylwadau'n ailbwysleisio pwyntiau a wnaed yn barod, yn gwneud mwy o awgrymiadau ar gyfer diwygiadau, neu'n rhoi adborth ar AGA yng Nghymru yn gyffredinol. Roeddent yn cynnwys:

- y disgwyladau uwch ynghylch y Gymraeg
- rôl unedau cyfeirio disgyblion ym maes AGA
- ysgolion arbennig ym maes AGA, y ffaith bod Atodiad pedwar wedi'i gynnwys a darpariaeth AGA amgen seiliedig ar gyflogaeth ar gyfer yr ysgolion hyn
- helpu athrawon dan hyfforddiant sydd am addysgu mewn ysgolion crefyddol a gynhelir
- ceisiadau i gynnwys pethau penodol yn y cwricwlwm AGA
- y ffaith bod y cwricwlwm AGA wedi'i orlwytho
- rheoli myfyrwyr AGA sy'n methu.

Gofynnodd rhai o'r sylwadau am fwy o eglurder ac arweiniad ar agweddau penodol ar y Meini prawf drafft gan gynnwys:

- gofynion mynediad
- profiad ysgol ac ymarfer clinigol athrawon dan hyfforddiant.

*'Rydym wir yn croesawu'r meini prawf diwygiedig ac yn gwerthfawrogi'r ffaith eu bod wedi cael eu llunio drwy gydweithio.'*

Partneriaeth AGA CaBan Bangor mewn ymateb i gwestiwn deg.

*'Mae NEU Cymru o'r farn mai'r model prifysgol a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer AGA yw'r ffordd fwyaf effeithiol o hyfforddi athrawon yfory oherwydd, fel rhan ohono, rhaid i athrawon dan hyfforddiant ddarllen yn ehangach a dangos dealltwriaeth gynyddol hyderus o theori ac ymchwil sy'n berthnasol i'w hymarfer dyddiol. Mae'r model hwn hefyd yn rhoi profiad ymarferol iddynt o fywyd bob dydd mewn ysgol lle maent yn cynllunio, yn paratoi, yn addysgu ac yn asesu disgyblion, ac yn myfyrio ar eu hymarfer. Dylai AGA bob amser fod yn seiliedig ar ddysgu sy'n ymarferol iawn ac yn ddeallusol heriol ar yr un pryd.'*

NEU Cymru mewn ymateb i gwestiwn deg.

## **Y Camau Nesaf**

Mae eich barn yn bwysig er mwyn llywio penderfyniadau ynghylch y *Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru*. Caiff pob ymateb ei ystyried yn ofalus gan Lywodraeth Cymru gyda chymorth y grŵp llywio er mwyn llunio fersiwn derfynol y ddogfen Meini prawf.

## **Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr**

Arweinydd partneriaeth AGA – ysgol bartner arweiniol  
ASCL Cymru  
Athro ysgol (nad yw'n gweithio fel addysgwr athrawon ar hyn o bryd)  
CGA  
Comisiynydd y Gymraeg  
Consortiwm Canolbarth y De  
Cyd-Grŵp Strategol ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru  
Cyfoeth Naturiol Cymru  
Cyngor Conwy a Sir Ddinbych  
Cyngor Cymru ar gyfer Dysgu yn yr Awyr Agored  
Cyngor Prifysgolion ac Ysgolion ar gyfer Addysg Athrawon Cymru (USCET Cymru)  
Cymdeithas Penaethiaid Canolfannau Addysg Awyr Agored  
Cymdeithas Penaethiaid Ysgolion Arbennig De Cymru  
Cymdeithas y Seicolegwyr Addysg  
Cymdeithas yr Iaith  
Cymdeithas Ysgolion dros Addysg Gymraeg (CYDAG)  
Cymwysterau Cymru  
Dyfodol i'r Iaith  
Estyn  
Grŵp Cyngori Llywodraeth Cymru ar Addysg Heblaw yn yr Ysgol  
Grŵp Gweithredu Allanol - Gweithlu'r Gymraeg mewn Addysg  
Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig  
Gwasanaeth Cyflawni Addysg  
NAHT Cymru  
NASUWT Cymru  
NEU Cymru  
Partneriaeth AGA – ysgol arbennig  
Partneriaeth AGA CaBan Bangor  
Partneriaeth AGA Prifysgol Aberystwyth

Partneriaeth AGA Prifysgol De Cymru  
Pennaeth (nad yw'n ymwneud â phartneriaeth AGA yng Nghymru ar hyn o bryd)  
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant  
UCAC (Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru)  
Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Roedd 21 o ymatebwyr am aros yn ddiennw.